

## Tasg 1

# Sychder Mawr

1. Rhowch y wybodaeth yn y brawddegau yn y drefn y mae hi yn y gerdd, o 1 i 5.

Does dim Eisteddfod sychach nag Eisteddfod 1976 wedi bod erioed.	
Mae hi'n sych yng Nghymru eleni.	
Does neb yn cael rhoi dŵr i'r planhigion yn yr ardd.	
Does dim digon o ddŵr i ddiffodd tanau.	
Dim ond hanner llawn mae cronfeydd dŵr.	

2. Pa **un** o'r rhain roeddech chi **yn gallu** ei wneud yn ystod y 'sychder mawr'?

Ticiwch **un**.

a) golchi'r car

b) cael bath dwfn

c) dyfrio'r ardd

ch) bod â char budr a brwnt

3. Beth yw ystyr 'cronfeydd dŵr'?

Ticiwch **un**.

Lleoedd i gadw dŵr gwastraff

Lleoedd i gadw dŵr i olchi llestri yn unig

Lleoedd i gadw dŵr i bobl ei yfed ac ar gyfer golchi

Lleoedd i gadw dŵr i anifeiliaid ei yfed

4. Dewiswch a chopiwch y geiriau yn y trydydd pennill sydd â'r **un ystyr**:

5. Tynnwch **bedair** llinell i gysylltu'r gair â'r diffiniad.

1) llaith

a) rhoi dŵr i rywbeth

2) dyfrio

b) yn fwy sych

3) llychlyd

c) ddim yn sych

4) sychach

ch) yn llawn llwch

6. Pam mae \* ar ôl y gair 'Eisteddfod' yn y pennill olaf?  
Ticiwch **un**.

I ddangos bod 'Eisteddfod' yn rhywbeth pwysig

I ddangos bod sêr yn canu yn yr Eisteddfod

I ddangos bod yr Eisteddfod yn llychlyd

I ddangos bod nodyn i egluro rhagor am yr Eisteddfod

7. Beth yw gobaith y bardd ar ddiwedd y gerdd?  
Ticiwch **un**.

Bydd hi'n aros yn sych.

Bydd hi'n bwrw glaw.

Bydd pob Eisteddfod yn sych.

Bydd pob Eisteddfod yn llychlyd.

8. Gyda phartner, **trafodwch** pam mae'r geiriau hyn yn y gerdd:

<b>cwyno</b>	<b>diffodd tân</b>	<b>car</b>
<b>gwerthfawr</b>	<b>Eisteddfod</b>	

9. Beth yw patrwm y gerdd? Cyfrwch y sillafau yn y llinellau a nodwch ble mae'r odl ym mhob pennill.

10. **Ymchwilio:**

- a) Beth yw 'Tryweryn'? Chwiliwch i gael rhagor o wybodaeth, er mwyn deall pam mae'r bardd yn sôn am y 'pentref a gollwyd'.
- b) Oes rhywun yn eich teulu chi sy'n cofio'r sychder mawr yn 1976? Holwch nhw, i weld beth yw eu hatgofion nhw.

11. Ysgrifennu: Edrychwch ar rai o'r ffotograffau sydd ar y we ar <http://www.walesonline.co.uk/lifestyle/nostalgia/you-might-think-its-hot-9562723>

Dewiswch un ohonyn nhw ac ysgrifennu disgrifiad byr amdano.